

### Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a  
Rheoliadau (Diwygio) 2015 (Rheoliad 22)

## HYSBYSIAD CYFLWYNO CYNLLUN DATBLYGU LLEOL I LYWODRAETH CYMRU a'r AROLYGIAETH GYNLLUNIO

### Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Mae Cyngor Sir y Fflint (CSFf) wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) uchod i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer archwilio. Os, a phan, y caiff cynigion y cynllun hwn eu mabwysiadu, bydd y CDLI yn disodli'r Cynllun Datblygu Unedol (2000-2015) a ffurfio'r sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir ar gyfer Sir y Fflint.

Mae CSFf wedi rhoi ystyriaeth i'r holl sylwadau a ddaeth i law o ran y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd ac nid yw wedi cynnig unrhyw Newidiadau ffurfiol â Chanolbwynt i'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd.

Mae Dogfennau Cyflwyno'r CDLI yn cynnwys:

- y 'CDLI' i'w archwilio gan y cyhoedd,
- yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (Asesiad Effaith Integredig),
- y Cytundeb Cyflawni (gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau),
- yr Adroddiad Ymgynghori,
- copïau o sylwadau ac ymatebion i'r ymgynghoriad ar y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd a
- dogfennau ategol eraill.

Mae atodlen lawn o Ddogfennau Cyflwyno wedi'i nodi yn Atodiad 1 isod.

Mae'r Dogfennau Cyflwyno ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor yn [www.flintshire.gov.uk/ldp](http://www.flintshire.gov.uk/ldp) a dim ond yn y lleoliadau hyn y byddant ar gael **os bydd cyfyngiadau Covid-19 yn caniatáu hynny:**

- Tŷ Dewi Sant, Ewlo
- Neuadd y Sir, yr Wyddgrug
- Swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu ym Mwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug.

[Type here]

- Llyfrgelloedd ym Mrychdyn, Bwcle, Glannau Dyfrdwy, y Fflint, Treffynnon, Mancot a'r Wyddgrug

Gellir cyflwyno unrhyw ymholiadau:

- dros y ffôn 01352 703213
- trwy e-bost [developmentplans@flintshire.gov.uk](mailto:developmentplans@flintshire.gov.uk)
- trwy ysgrifennu at Andrew Farrow, Prif Swyddog – Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NF.

Bydd Llywodraeth Cymru yn penodi Arolygydd Cynllunio annibynnol i gynnal Archwiliad Cyhoeddus i benderfynu a yw'r cynllun yn gadarn.

Dim ond unigolion sydd wedi cyflwyno sylwadau sy'n ceisio newid y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd (Gwrthwynebwyr), y cafodd eu sylwadau eu gwneud yn briodol (erbyn y dyddiad cau a nodwyd mewn hysbysiadau cynharach), sydd â'r hawl i ymddangos gerbron yr Arolygydd a chyflwyno eu barn wrth yr Arolygydd hwnnw yn yr Archwiliad (Adran 64 (6) Deddf 2004.).

Rhoddir rhybudd o leiaf 6 wythnos cyn dechrau'r archwiliad. Caiff fformat y gwrandawriad ei benderfynu gan yr Arolygydd Cynllunio a benodwyd. Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r archwiliad at y Swyddog Rhaglen. Caiff manylion pellach eu rhyddhau pan fyddant ar gael.

Andrew Farrow

Prif Swyddog - Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi

30/10/20

[Type here]

Atodiad 1 – Atodlen Dogfennau Cyflwyno